# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 12 Hydref 2011**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(22)v3

### 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)

Gweld y cwestiynau

### 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (45 munud)

Gweld y cwestiynau

### 3. Datganiad gan y Prif Weinidog: Dulliau Llywodraeth Cymru i Sbarduno'r Economi (30 munud)

### 4. Cynnig i ethol Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn yr Aelodau (5 munud)

**NDM4820 Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, wrth weithredu o dan Reol Sefydlog Rhif 1.7, yn ethol David Melding AC, Mike Hedges AC, Peter Black AC a Jocelyn Davies AC, yn ymddiriedolwyr i gynllun pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn lle Rosemary Butler AC, John Griffiths AC, yr Arglwydd German a'r Arglwydd Wigley.

### 5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

**NDM4821 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) Sefydlu ‘Cynllun Canser Cenedlaethol’; a

b) Penodi cydlynydd canser annibynnol i oruchwylio gweithredu’r ‘Cynllun Canser Cenedlaethol’ hwnnw a chodi ymwybyddiaeth o ganser, cydlynu gwasanaethau a hyrwyddo mesurau ataliol.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys ar ddechrau pwynt 1:

‘Yn nodi cymeradwyaeth unfrydol y Cynulliad ar 5 Hydref 2011 i lunio a gweithredu Cynllun Canser Cenedlaethol ac felly’.

**Gwelliant 2 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt b) a rhoi yn ei le:

Adolygu pa gymorth sydd angen ei roi ar lefel Cymru gyfan i gynorthwyo GIG Cymru i fynd i’r afael â chanser

**6. Dadl Plaid Cymru (60 munud)**

**NDM4822 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu wrth y toriad o 41% yng nghyllideb cyfalaf Llywodraeth Cymru ac effaith niweidiol hynny ar y sector adeiladu; a

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ysgogi’r economi drwy:

a) Creu cronfa buddsoddiad seilwaith;

b) Defnyddio pwerau benthyg Awdurdodau Lleol;

c) Gweithredu i helpu i gynyddu canran y cwmnïau yng Nghymru sy’n ennill tendrau caffael cyhoeddus; a

d) Chwilio am ffyrdd arloesol o godi cyfalaf ar gyfer prosiectau seilwaith ar wahân i Fenter Cyllid Preifat.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le “Yn nodi’r gostyngiad o 41 y cant yng nghyllideb cyfalaf Llywodraeth Cymru; ac”

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 2d dileu "ar wahân i Fenter Cyllid Preifat" a rhoi yn ei le "yn cynnwys Banc Buddsoddi Ewrop".

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

Bidio i leoli'r Banc Buddsoddi Gwyrdd yng Nghaerdydd

**Gwelliant 4 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu cyn lleied o gontractau Olympaidd a enillwyd dan y llywodraeth "Cymru'n Un" flaenorol, a allai fod wedi bod o fudd i'r sector adeiladu.

**Gwelliant 5 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Cyflwyno proses ariannu drwy gynyddrannau treth er mwyn galluogi awdurdodau lleol i godi arian cyfalaf ar gyfer prosiectau seilwaith.

**Gwelliant 6 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Sefydlu cronfa arloesedd i gynyddu nifer y patentau a sefydlu cynlluniau mentora busnes.

**7. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)**

**NDM4824 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) Sefydlu Cynllun Canser cynhwysfawr sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i:

i) osod targedau clir i sicrhau bod y triniaethau gorau sydd ar gael ar gael i bawb yng Nghymru ni waeth pa fath o ganser sydd ganddynt na lle maent yn byw;

ii) datblygu cynlluniau clir ar gyfer canfod canser yn gynharach yng Nghymru.

iii) sicrhau bod cefnogaeth holistaidd yn cael ei darparu i'r rheini sy'n byw â chanser

a'u teuluoedd o'r funud maent yn amau bod ganddynt ganser, yn ystod eu triniaeth ac ar ei hôl yn ogystal ag ar ddiwedd bywyd;

b) Sefydlu Cronfa Cyffuriau Canser; ac

c) Datblygu cynllun i gefnogi'r rheini sy'n goroesi canser.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys ar ddechrau pwynt 1:

'Yn nodi cymeradwyaeth unfrydol y Cynulliad ar 5 Hydref 2011 i lunio a gweithredu Cynllun Canser Cenedlaethol ac felly'.

**Gwelliant 2 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwyntiau b.) ac c.) a rhoi yn eu lle:

sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar driniaethau canser diogel ac effeithiol mewn modd teg a phrydlon.

**Cyfnod pleidleisio**

**8. Dadl Fer (30 munud)**

**NDM4823 Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):**

Busnesau Bach, Effaith Fawr

Bydd y Cynulliad yn cwrdd eto yn y Cyfarfod Llawn am 13:30 Dydd Mawrth, 18 Hydref 2011